# 2013 Rhif 18

# Cynllun Cronfa Ariannol Wrth Gefn (Addysg Uwch) (Cymru) 2013/2014

## NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Cynllun)*

Mae'r Cynllun hwn yn darparu cyllid i sefydliadau addysg uwch yng Nghymru at y diben o sefydlu cronfeydd disgresiynol i ddarparu taliadau brys i fyfyrwyr cymwys mewn perthynas ag argyfyngau annisgwyl; ac i gynorthwyo mewn achosion pan fo myfyriwr cymwys hwyrach yn ystyried gadael addysg uwch oherwydd problemau ariannol. Mae'n darparu gwybodaeth i sefydliadau addysg uwch ynglŷn â pholisi a'r trefniadau ar gyfer gweinyddu cyllid o'r fath, ac yn gosod gofynion mewn perthynas â'r trefniadau hynny.

Daw'r Cynllun hwn i rym ar 1 Medi 2013 ac y mae'n gymwys o ran y flwyddyn academaidd sy'n cychwyn ar 1 Medi 2013 ac yn diweddu ar 31 Awst 2014.

# 2013 Rhif

# Cynllun Cronfa Ariannol Wrth Gefn (Addysg Uwch) (Cymru) 2013/2014

## RHAN 1 - CYFFREDINOL

**Enwi, cychwyn a chymhwyso**

**1.** Enw’r Cynllun hwn yw Cynllun Cronfa Ariannol Wrth Gefn (Addysg Uwch) (Cymru) 2013/2014.

**2.** Daw’r Cynllun hwn i rym ar 1 Medi 2013 ac y mae’n gymwys i’r cyfnod o 1 Medi 2013 i 31 Awst 2014 (yn gynwysedig). Mae’r Cynllun hwn yn gymwys o ran Cymru.

**Dehongli**

**3.** Yn y Cynllun hwn—

ystyr “LMA” (*“DSA”*) yw lwfans myfyriwr anabl sy’n daladwy o dan Reoliadau Grantiau a Benthyciadau Dysgu’r Cynulliad (Addysg Uwch) (Cymru) (Rhif 2) 2011 (Rhif 886 Cy.130) neu Reoliadau Addysg (Cymorth Myfyrwyr) 2012 (Rhif 3097 Cy.313), neu lwfans cyfatebol a gyllidir gan y llywodraeth o dan gynllun cymorth myfyrwyr priodol i’r myfyriwr dan sylw neu ddeddfwriaeth;

ystyr “modiwl blas i israddedigion” (“undergraduate taster module”) yw modiwl mewn cwrs addysg uwch israddedig—

(a) sydd naill ai’n arwain at gymhwyster addysg uwch neu’n sefyll ar ei ben ei hun ac nid yn arwain at gymhwyster o’r fath;

(b) sy’n gyfwerth ag o leiaf 10% neu 12 credyd o gwrs amser llawn; ac

(c) sy’n gyfwerth â llai na 50% o gwrs amser llawn;

ystyr “Sefydliad” (*“institution”*) yw Sefydliad yn y sector addysg uwch yng Nghymru sy’n cael cyllid gan Weinidogion Cymru at ddibenion y Cynllun hwn;

ystyr “taliad o fenthyciad” (*“loan payment”*) yw taliad o fenthyciad o dan Reoliadau Grantiau a Benthyciadau

Dysgu'r Cynulliad (Addysg Uwch) (Cymru) (Rhif 2) 2011 (Rhif 886 Cy.130) neu Reoliadau Addysg (Cymorth Myfyrwyr) 2012 (Rhif 3097 Cy.313), neu gynllun cymorth myfyrwyr cyfatebol a gyllidir gan y llywodraeth ac sy'n briodol i'r myfyriwr cymwys, neu ddeddfwriaeth.

**Adolygu**

**4.** Caiff Gweinidogion Cymru adolygu'r darpariaethau yn y Cynllun hwn, eu dirymu neu ychwanegu atynt unrhyw bryd.

**Cyngor ariannol**

**5.** Mae darparu cyngor ariannol i fyfyrwyr yn rhan allweddol o sicrhau y gweithredir y Cynllun hwn yn effeithiol.

**6.** Dylai gweinyddwyr fod yn ymwybodol y gall beri pryder i rai myfyrwyr Mwslimaidd os gofynnir iddynt arfer eu hawl i gymryd benthyciad i fyfyrwyr(**1**). Mewn achos o'r fath hwyrach y byddai'n fuddiol i weinyddwr gynghori'r myfyriwr i ymweld â gwefan Ffederasiwn Cymdeithasau Islamaidd y Myfyrwyr (FOSIS) yn **http://www.fosis.org.uk** am wybodaeth a chyngor pellach. Dichon y bydd gweinyddwyr yn ymwybodol hefyd fod nifer o fanciau yn y DU yn cynnig cyfrifon banc personol a weithredir yn unol â chyfraith Sharïa.

## RHAN 2 – DIBENION Y CYNLLUN

**Grwpiau â blaenoriaeth**

**7.** Rhaid i sefydliadau roi blaenoriaeth i fyfyrwyr sy'n perthyn i un neu ragor o'r grwpiau â blaenoriaeth a nodir ym mharagraff 8.

**8.** Y grwpiau â blaenoriaeth ar gyfer cymorth o dan y Cynllun hwn yw myfyrwyr cymwys fel a ganlyn:

(1) Myfyrwyr sydd â phlant dibynnol o dan 18 mlwydd oed;

(2) Myfyrwyr sydd eisoes ag ymrwymiadau ariannol hanfodol, gan gynnwys dyledion â blaenoriaeth (gweler paragraff 13).

(3) Myfyrwyr anabl, yn enwedig myfyrwyr nad oes modd i'w LMA dalu costau penodol, pan nad oes

---

(**1**) Benthyciad sy'n daladwy o dan: o dan Reoliadau Grantiau a Benthyciadau Dysgu'r Cynulliad (Addysg Uwch) (Cymru) (Rhif 2) 2011 neu Reoliadau Addysg (Cymorth Myfyrwyr) 2012, neu gynllun cymorth cyfatebol i fyfyrwyr a gyllidir gan y llywodraeth.

rhwymedigaeth ar y Sefydliad ychwaith i dalu'r costau hynny;

(4) Myfyrwyr a fu, ar unrhyw adeg yn ystod y cyfnod o 3 blynedd cyn diwrnod cyntaf eu cwrs, yng ngofal awdurdod lleol.

(5) Myfyrwyr ar eu blwyddyn olaf sydd mewn trafferthion ariannol, gan gynnwys rhai na allant gymryd gwaith am dâl oherwydd pwysau academaidd;

(6) Myfyrwyr sy'n byw mewn llety Foyer a myfyrwyr digartref eraill; a

(7) Myfyrwyr nad ydynt yn gymwys i gael cymorth o dan Reoliadau Grantiau a Benthyciadau Dysgu'r Cynulliad (Addysg Uwch) (Cymru) (Rhif 2) 2011, Rheoliadau Addysg (Cymorth Myfyrwyr) 2012 neu gynllun cymorth myfyrwyr cyfatebol a gyllidir gan y llywodraeth ac sy'n briodol i'r myfyriwr cymwys, neu ddeddfwriaeth; ond bydd rhaid i fyfyrwyr o'r fath ddangos eu bod wedi gwneud darpariaeth briodol ar gyfer eu costau byw drwy gydol eu cwrs.

**Dibenion y caniateir defnyddio taliadau ar eu cyfer**

**9.** Rhaid defnyddio'r taliadau a wneir i fyfyrwyr yn rhinwedd y Cynllun hwn ar gyfer y dibenion hynny, yn unig, a bennir yn y Cynllun hwn.

**Cyffredinol**

**10.** Rhaid defnyddio unrhyw gyllid a roddir i Sefydliad yn rhinwedd y Cynllun hwn at y diben o ddarparu cyllid i fyfyrwyr cymwys y gallai ystyriaethau ariannol eu rhwystro rhag cael mynediad at addysg uwch, neu fyfyrwyr cymwys sydd, am ba bynnag reswm, yn wynebu anawsterau ariannol ynglŷn â'u costau byw. Ni chaiff Sefydliad ddarparu cyllid mewn perthynas â ffioedd dysgu myfyriwr cymwys mewn unrhyw amgylchiadau ac eithrio'r amgylchiadau a bennir ym mharagraffau 15 a 17.

**Costau sy'n deillio o anableddau**

**11.** Caiff Sefydliadau wneud taliadau at y diben o gynorthwyo myfyrwyr anabl cymwys a myfyrwyr cymwys sydd â dibynyddion anabl. Mae hyn yn cynnwys, ond nid yn gyfyngedig i, daliadau mewn perthynas â chostau rhesymol sy'n gysylltiedig â'r anabledd ac na ellir eu talu o'r LMA, er enghraifft costau ynglŷn â phrawf diagnostig rhagarweiniol neu gyfarpar penodol. Pan fo Sefydliad wedi prynu cyfarpar ar gyfer myfyriwr anabl o dan y Cynllun hwn, dylai'r cyfarpar hwnnw fel arfer barhau'n eiddo i'r Sefydliad.

**Costau cyrsiau**

**12.** Caiff Sefydliadau wneud taliadau i fyfyrwyr cymwys at y diben o gynorthwyo gyda chostau'u cyrsiau. Mae costau o'r fath yn cynnwys, ond nid yn gyfyngedig i, gostau ynglŷn â gofal plant, teithio, llyfrau a theithiau maes. Nid yw costau cwrs yn cynnwys ffioedd dysgu; ynglŷn â ffioedd dysgu, gweler paragraffau 15 a 17 isod.

**Costau eithriadol**

**13.** Caiff Sefydliadau wneud taliadau i fyfyrwyr cymwys at y diben o'u cynorthwyo i dalu costau eithriadol. Mae costau o'r fath yn cynnwys, ond nid yn gyfyngedig i, gostau atgyweirio offer hanfodol yn y cartref, sefyllfaoedd argyfyngus (megis costau teithio ar achlysur salwch teuluol neu brofedigaeth a chaledi oherwydd lladrad neu dân) a chymorth gyda dyledion â blaenoriaeth (sef dyledion y byddai methu â'u talu'n peri y byddai hawl gan gredydwr i amddifadu'r dyledwr o'i gartref neu nwyddau neu wasanaethau hanfodol; nid yw'r rhain, felly, yn cynnwys dyledion ar ffurf gorddrafft banc neu ddyledion cardiau credyd).

**Costau byw**

**14.** Caiff Sefydliadau wneud taliadau i fyfyrwyr cymwys at y diben o'u cynorthwyo i dalu eu costau byw tra bônt yn dilyn cwrs addysg uwch. Mae costau o'r fath yn cynnwys, ond nid yn gyfyngedig i, rent, taliadau morgais, bwyd, biliau cyfleustodau, dillad a golchi dillad, a cheir cynnwys costau a dynnir yn ystod gwyliau'r haf yn ogystal ag yn ystod y tymor.

**Myfyrwyr rhan-amser – ffioedd dysgu**

**15.** Caiff Sefydliadau ddarparu cymorth ychwanegol at ffioedd ("CYFf") i fyfyrwyr rhan-amser cymwys sydd â'u hincwm yn isel, os yw'r cymorth arall a gânt tuag at ffioedd yn annigonol i dalu'r ffioedd dysgu'n llawn, yn enwedig os byddai'r caledi ariannol a achosid heb y cymorth ychwanegol yn atal myfyriwr rhag cael mynediad i addysg uwch, neu rhag parhau mewn addysg uwch.

**Modiwlau blas i israddedigion – costau cyrsiau a ffioedd dysgu**

**16.** Caiff Sefydliadau wneud taliadau i fyfyrwyr cymwys sy'n ymgymryd â modiwl blas i israddedigion.

**17.** Caiff Sefydliadau gynnig cymorth o dan y Cynllun hwn ar gyfer ffioedd a godir am un modiwl blas i israddedigion neu un flwyddyn academaidd, pa un bynnag o'r ddau gyfnod yw'r byrraf. Ceir darparu

cymorth cyfyngedig hefyd ar gyfer costau sy’n gysylltiedig â’r cyrsiau, megis llyfrau neu deithio.

**18.** Pan fo myfyriwr cymwys yn ymgymryd â modiwl blas i israddedigion ac, yn ystod yr un flwyddyn academaidd, yn trosglwyddo credydau a gronnwyd o’r modiwl hwnnw i flwyddyn gyntaf cwrs addysg uwch rhan-amser, rhaid i’r Sefydliad sicrhau nad yw’r cymorth a gaiff y myfyriwr ar gyfer ffioedd dysgu yn ystod y flwyddyn academaidd honno (boed yn gymorth tuag at ffioedd o dan y Cynllun hwn neu unrhyw gymorth statudol tuag at ffioedd) yn fwy na’r ffi dysgu a godir gan y Sefydliad ar fyfyrwyr sy’n cofrestru’n uniongyrchol ar y cwrs addysg uwch rhan-amser hwnnw.

## RHAN 3 – CYMHWYSTRA

### Myfyrwyr a chyrsiau cymwys

**19.** Rhaid i fyfyrwyr cymwys fod wedi ymchwilio i bob ffynhonnell arall o gyllid, gan gynnwys cyllid cyhoeddus, ac wedi ymgeisio am gyllid o’r ffynonellau hynny, cyn y ceir ystyried cais o dan y Cynllun hwn.

**20.** Ni cheir rhoi taliadau o dan y Cynllun hwn ar gael i neb ac eithrio i fyfyrwyr cymwys.

**21.** Myfyriwr cymwys yw myfyriwr sydd, ym marn y Sefydliad (a) yn perthyn i un o’r categorïau a nodir yn Rhan 2 o’r Atodlenni’r Cynllun hwn; a (b) yn perthyn i un o’r categorïau yn is-baragraffau (1) i (3) isod.

(1) Myfyrwyr israddedig: Myfyrwyr amser llawn neu ran-amser, gan gynnwys dysgwyr o bell, sy’n dilyn cwrs addysg uwch neu’n ymgymryd ag unrhyw gyfnodau o brofiad gwaith neu’n astudio ar gyrsiau graddau sylfaen. Mae myfyrwyr sy’n astudio blwyddyn sylfaen sy’n rhan annatod o gwrs i israddedigion, a lle nad oes modd symud ymlaen i’r rhan o’r cwrs sydd yn y sector addysg uwch oni chwblheir y flwyddyn sylfaen honno, hefyd yn gymwys i wneud cais am gymorth o dan y Cynllun hwn.

(2) Myfyrwyr ôl-raddedig: Myfyrwyr amser llawn neu ran-amser sy’n dilyn cwrs addysg uwch sydd ar lefel uwchlaw lefel gradd gyntaf ac sy’n parhau am o leiaf un flwyddyn academaidd. Gall hyn gynnwys, yn ôl disgresiwn y Sefydliad, rhai sy’n ysgrifennu eu traethodau ymchwil am gyfnod o hyd at chwe mis ar ôl dyddiad terfynol eu cofrestriad ar gwrs, ac nad ydynt, felly, yn bresennol yn y Sefydliad.

(3) Myfyrwyr addysg bellach: Myfyrwyr amser llawn neu ran-amser sy’n dilyn cwrs addysg bellach

mewn sefydliad addysg uwch, gan gynnwys cyrsiau rhyngosod ac unrhyw gyfnodau o brofiad gwaith.

**22.** Nid oes hawl gan fyfyriwr cymwys i gael cymorth o dan y Cynllun hwn, ac eithrio unrhyw gymorth tuag at ffioedd dysgu a allai fod ar gael o dan baragraff 15 neu 17, os yr unig baragraff y mae'r myfyriwr cymwys yn perthyn iddo yn Rhan 2 o'r Atodlen yw paragraff 9.

**23.** Caiff Sefydliadau dderbyn mwy nag un cais oddi wrth fyfyriwr cymwys o dan y Cynllun hwn, ond fel rheol ni wneir hynny ac eithrio pan fo amgylchiadau'r myfyriwr cymwys wedi newid neu pan fo'r myfyriwr cymwys yn gwneud cais am gymorth yn ystod gwyliau'r haf.

## RHAN 4 – MATHAU O DALIADAU

### Grantiau

**24.** Caiff Sefydliadau ddarparu cyllid i fyfyrwyr cymwys ar ffurf grantiau.

### Benthyciadau byrdymor

**25.** Caiff Sefydliadau ddarparu cyllid i fyfyrwyr cymwys ar ffurf benthyciadau byrdymor. Gall myfyrwyr cymwys gael benthyciad brys byrdymor o dan y Cynllun hwn os yw eu taliad o fenthyciad cyntaf yn hwyr, a heb gyrraedd erbyn dechrau'r tymor dan sylw. Mater i'r Sefydliad perthnasol yw penderfynu swm y benthyciad byrdymor a ddyfernir i fyfyriwr cymwys, ond argymhellir na ddylai fod yn fwy na swm sy'n cyfateb i gyfran pedair wythnos o'r taliad o fenthyciad. Mae'n bosibl y bydd Sefydliadau yn ystyried buddioldeb cynnig benthyciad byrdymor mewn amgylchiadau eraill yn ogystal.

### Bwrsarïau

**26.** Caiff Sefydliad ddefnyddio hyd at uchafswm o 10% gyfanswm y cyllid a ddyrennir iddo o dan y Cynllun hwn i ddarparu cymorth i fyfyrwyr cymwys ar ffurf bwrsarïau. Ceir darparu bwrsarïau o'r fath i fyfyrwyr cymwys israddedig ac ôl-raddedig, amser llawn a rhan-amser. Os bydd Sefydliad yn penderfynu neilltuo cyllid ar gyfer bwrsarïau o'r fath, dylai'r wybodaeth a ddarperir i'r myfyriwr nodi'n eglur y criteria y dyfernir y symiau hynny ar eu sail, a sut yr adwaenir ac yr asesir y myfyrwyr a fydd yn cael y bwrsarïau.

# RHAN 5 – PENDERFYNU YNGHYLCH TALIADAU

**Ceisiadau am daliadau**

**27.** Rhaid i Sefydliadau werthuso ceisiadau am gyllid o dan y Cynllun hwn fesul achos unigol. Ym mhob achos, rhaid i'r Sefydliadau asesu cais myfyriwr ar sail y dystiolaeth a ddarperir gan y myfyriwr, a'i amgylchiadau unigol.

**Ystyried cyllid o ffynonellau eraill wrth asesu cymhwystra**

**28.** Wrth asesu cymhwystra myfyriwr o dan y Cynllun hwn, dylai Sefydliadau ystyried a fyddai'n briodol cymryd i ystyriaeth unrhyw fwrsarïau disgresiynol a ddyfarnwyd eisoes gan y Sefydliad i'r myfyriwr hwnnw, naill ai ar sail cyrhaeddiad neu'n dilyn prawf modd. Dylent ystyried hefyd a yw'r myfyriwr yn cael unrhyw fwrsarïau neu gymhellion hyfforddiant ariannol o ffynonellau eraill mewn cysylltiad â chyrsiau penodol, er enghraifft, cymhellion sy'n gysylltiedig â'r GIG neu hyfforddi athrawon.

**Cyfraniad rhieni /partneriaid**

**29.** Dylai Sefydliadau gadw mewn cof y posibilrwydd y gall cyfraniadau rhieni neu bartner weithiau fod yn llai nag y byddid yn disgwyl, am wahanol resymau, gan gynnwys ymwahanu neu anawsterau ariannol o fewn y teulu.

# RHAN 6 – PROSESAU: Y RHYNGWYNEB RHWNG GWEINIDOGION CYMRU A SEFYDLIADAU

**Talu i Sefydliadau**

**30.** Bydd Gweinidogion Cymru yn darparu cyllid i Sefydliad o dan y Cynllun hwn pan gânt gadarnhad ysgrifenedig gan y Sefydliad bod y Sefydliad yn derbyn telerau ac amodau'r Cynllun hwn.

**31.** Swm y cyllid a delir i Sefydliad fydd y swm a ddyrannwyd i'r Sefydliad hwnnw gan Weinidogion Cymru.

**Cyfrifon banc**

**32.** Rhaid i Sefydliad fod yn ddeiliad cyfrif banc pwrpasol ar wahân, sy'n denu llog, a rhaid talu'r cyfryw gyllid i mewn i'r cyfrif hwnnw.

### Llog a gronnir

**33.** Ceir defnyddio'r llog ar gyllid o'r fath i wneud taliadau i fyfyrwyr cymwys, fel rhan o'r broses arferol o ddyrannu'r adnoddau sydd ar gael, neu ceir ei ddefnyddio i dalu costau hysbysebu neu weinyddu, neu tuag at gostau archwilio.

### Arian nas gwariwyd

**34.** Ar ddiwedd y cyfnod y mae'r Cynllun hwn yn ymwneud ag ef, caiff Sefydliadau gario ymlaen hyd at 10% o gyfanswm unrhyw gyllid nas gwariwyd ynghyd â'r llog a geir o dan y Cynllun hwn, heb gyfeirio at Weinidogion Cymru.

**35.** Rhaid defnyddio unrhyw gyllid a llog a gariwyd ymlaen o dan baragraff 34 mewn perthynas, yn unig, â chynllun caledi olynol a sefydlir gan Weinidogion Cymru.

**36.** Rhaid dychwelyd gweddill unrhyw gyllid a llog nas gwariwyd gan Sefydliad mewn perthynas â'r Cynllun hwn (dros ben yr hyn a gyfrifir o dan baragraff 34 ac sy'n parhau heb ei wario ar 31 Awst 2014) i'r Adran Addysg a Sgiliau erbyn 30 Tachwedd 2014 fan bellaf.

**37.** At ddibenion paragraff 34, rhaid cyfrifo'r ffigur o 10% drwy gyfeirio at swm y dyraniad i'r Sefydliad ar gyfer 2013/14 ynghyd ag unrhyw gyllid blaenorol a gariwyd ymlaen gan y Sefydliad ac unrhyw log a enillwyd ar y swm a'r cyllid hwnnw.

### Costau hysbysebu a gweinyddu

**38.** Caiff Sefydliadau ddefnyddio hyd at 3% o gyfanswm y cyllid a ddyrannwyd iddynt o dan y Cynllun hwn neu £525, pa un bynnag yw'r swm mwyaf, ar gyfer sicrhau bod y Cynllun yn cael ei hysbysebu a'i weinyddu'n effeithiol.

### Atebolrwydd

**39.** Is-Ganghellor neu Brif Swyddog Gweithredol y Sefydliad sy'n gyfrifol am—

(1) cynghori Corff Llywodraethu'r Sefydliad ynglŷn â'i gyfrifoldebau o dan y Cynllun hwn;

(2) sicrhau bod y ffyrdd y mae'r Sefydliad yn defnyddio'i ddyraniad o gyllid yn gyson â dibenion y Cynllun hwn ac y cydymffurfir â thelerau ac amodau'r Cynllun hwn; a

(3) cymryd pa bynnag gamau a fydd yn ofynnol gan Weinidogion Cymru o bryd i'w gilydd i sicrhau bod system o reolaethau a dulliau rheoli mewn grym, i alluogi'r Sefydliad i gyflawni ei rwymedigaethau ariannol.

**Darparu cyfrifon a gwybodaeth ychwanegol**

**40.** Rhaid i Sefydliadau sicrhau bod eu cyfrifon wedi eu harchwilio a'u hardystio i'r perwyl bod y cyllid a ddyrannwyd, a'r llog cronedig ar y cyllid hwnnw wedi, eu defnyddio yn unol â'r Cynllun hwn.

**41.** Rhaid i Sefydliadau roi unrhyw wybodaeth am eu cyfrifon archwiliedig ar gael i Weinidogion Cymru os gofynnant amdani.

**42.** Ni chaiff Sefydliadau ddefnyddio'r ad-daliadau a wneir gan fyfyrwyr mewn perthynas â benthyciadau a wnaed o dan baragraff 26 o'r Cynllun hwn ac eithrio ar gyfer y dibenion a bennir yn y Cynllun hwn neu ar gyfer taliadau pellach, y bydd rhaid eu dogfennu yn yr un modd â thaliadau gwreiddiol.

# RHAN 7 – PROSESAU: Y RHYNGWYNEB RHWNG SEFYDLIADAU A MYFYRWYR

**Polisi**

**43.** Mae'n ofynnol bod gan bob Sefydliad bolisi ysgrifenedig ar gyfer dyrannu taliadau i fyfyrwyr cymwys o dan y Cynllun hwn. Rhaid cyhoeddi'r polisi ysgrifenedig (ynghyd â'r weithdrefn apelau o dan baragraff 53) ym mha bynnag fodd a ystyrir yn briodol gan y Sefydliad, ar yr amod bod y polisi a'r weithdrefn apelau ar gael yn hwylus i fyfyrwyr y Sefydliad ac i'r rhai sy'n eu cynghori.

**Taliadau i fyfyrwyr**

**44.** Rhaid i Sefydliadau ymdrin â cheisiadau myfyrwyr yn brydlon, gan gadw mewn cof ddibenion y Cynllun hwn a'r amgylchiadau sy'n arwain at galedi ariannol.

**45.** Ni ddylai Sefydliadau ymrwymo i wneud unrhyw daliadau flwyddyn ar ôl blwyddyn i fyfyrwyr.

**46.** Caiff Sefydliadau gytuno mewn egwyddor cyn dechrau'r flwyddyn academaidd ar daliadau i fyfyrwyr o dan y Cynllun hwn, ond ni cheir talu unrhyw arian i fyfyriwr cyn bo'r myfyriwr wedi dechrau'i gwrs.

**47.** Caiff Sefydliadau wneud taliadau i fyfyrwyr cymwys o dan y Cynllun hwn naill ai mewn cyfandaliad neu mewn rhandaliadau.

**48.** Dylai Sefydliadau ystyried unrhyw God Ymarfer a gyhoeddir o bryd i'w gilydd gan y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol mewn

perthynas â gofynion a osodir gan Bennod 2 o Ran 6 o Ddeddf Cydraddoldeb 2010.

### Taliadau ac eithrio taliadau uniongyrchol i'r myfyriwr / dyled i Sefydliad

**49.** Mewn perthynas â phrynu cyfarpar (gweler paragraff 12, er enghraifft), caiff Sefydliadau benderfynu peidio â gwneud taliad o gyllid yn uniongyrchol i fyfyriwr cymwys o dan y Cynllun hwn. Yn hytrach, cânt ddewis prynu'r cyfryw gyfarpar ar ran y myfyriwr hwnnw, pa un a fydd y cyfarpar yn dod yn eiddo wedyn i'r myfyriwr ynteu'n cael ei roi ar fenthyg iddo a'i gadw wedyn gan y Sefydliad.

**50.** Yn ddarostyngedig i'r eithriad sy'n dilyn, caiff Sefydliad ddefnyddio'r Cynllun hwn i adennill unrhyw symiau sy'n ddyledus gan fyfyriwr i'r Sefydliad, ar yr amod bod y myfyriwr yn gyntaf yn cydsynio i ddefnyddio'r cyllid at y diben hwnnw. Yr eithriad yw na chaniateir i Sefydliad ddefnyddio'r Cynllun i ddigolledu ei hunan yn uniongyrchol mewn perthynas â ffioedd dysgu nas talwyd (ac eithrio dyled a gododd mewn perthynas â thaliad a wnaed o dan baragraff 15 o'r Cynllun hwn).

**51.** Ni chaiff Sefydliadau: wneud taliadau o dan y Cynllun hwn yn amodol ar setlo yn gyntaf gan fyfyriwr unrhyw ddyled sydd ar y myfyriwr hwnnw i'r Sefydliad; mynnu bod myfyriwr yn defnyddio unrhyw daliad o dan y Cynllun hwn i setlo dyled o'r fath; neu fynnu bod myfyriwr yn gwneud cais am daliad o dan y Cynllun hwn er mwyn setlo dyled i'r Sefydliad am lety.

### Taliadau yn ystod cyfnodau pan fo astudiaethau wedi'u hatal dros dro

**52.** Caiff Sefydliadau wneud taliadau o dan y Cynllun hwn i fyfyrwyr sydd wedi atal eu hastudiaethau dros dro am resymau ynglŷn ag iechyd, yr angen i ofalu am eraill, beichiogrwydd, neu unrhyw amgylchiadau eraill a ystyrir yn briodol gan y Sefydliad, ar yr amod bod y Sefydliad yn fodlon nad yw'r myfyriwr wedi tynnu'n ôl o'r cwrs nac wedi gadael y cwrs a'i fod yn bwriadu dychwelyd iddo.

### Apelau

**53.** Rhaid i Sefydliadau fod wedi sefydlu a chyhoeddi gweithdrefn apelau ar gyfer achosion pan fo myfyrwyr wedi ymgeisio'n aflwyddiannus am gymorth o dan y Cynllun hwn. Dylai'r weithdrefn honno fod yn eglur, a dylid rhoi gwybod i fyfyrwyr bod hawl ganddynt i apelio. Cyfrifoldeb y Sefydliadau sy'n gweinyddu'r cynllun hwn yw

penderfyniadau ynglŷn â chymhwystra a dyfarniadau. Mater i'r Sefydliadau yw ystyried pob achos a datrys apelau yn unol â'u gweithdrefn gyhoeddedig.

**54.** Dylai Sefydliadau ystyried cynnwys cynrychiolwyr y myfyrwyr yn y broses o wneud penderfyniadau.

Huw Lewis AC
Y Gweinidog Addysg a Sgiliau, un o Weinidogion Cymru

Dyddiad: Awst 2013

# YR ATODLEN

## Myfyrwyr Cymwys

## RHAN 1

### Dehongli

**1.**—(1) At ddibenion yr Atodlen hon—

ystyr "aelod o deulu" ("*family member*") (oni nodir fel arall) yw—

(a) o ran gweithiwr ffin yr AEE, gweithiwr mudol o'r AEE, person hunangyflogedig ffin yr AEE neu berson hunangyflogedig o'r AEE—

(i) priod y person neu ei bartner sifil;

(ii) disgynyddion uniongyrchol y person neu ddisgynyddion priod neu bartner sifil y person sydd—

(aa) o dan 21 oed; neu

(bb) yn ddibynyddion y person neu'n ddibynyddion priod neu bartner sifil y person; neu

(iii) perthnasau uniongyrchol dibynnol yn llinach esgynnol y person neu yn llinach esgynnol priod neu bartner sifil y person;

(b) o ran person cyflogedig Swisaidd, person cyflogedig ffin y Swistir, person hunangyflogedig ffin y Swistir neu berson hunangyflogedig Swisaidd—

(i) priod y person neu ei bartner sifil; neu

(ii) plentyn y person neu blentyn priod neu bartner sifil y person;

(c) o ran gwladolyn o'r UE sy'n dod o fewn Erthygl 7(1)(c) o Gyfarwyddeb 2004/38—

(i) priod neu bartner sifil y gwladolyn; neu

(ii) disgynyddion uniongyrchol y gwladolyn neu ddisgynyddion uniongyrchol priod neu bartner sifil y gwladolyn sydd—

(aa) o dan 21 oed; neu

(bb) yn ddibynyddion y gwladolyn neu'n ddibynyddion priod neu bartner sifil y gwladolyn;

(d) o ran gwladolyn o'r UE sy'n dod o fewn Erthygl 7(1)(b) o Gyfarwyddeb 2004/38—

(i) priod neu bartner sifil y gwladolyn;

(ii) disgynyddion uniongyrchol y gwladolyn neu ddisgynyddion uniongyrchol priod neu bartner sifil y gwladolyn sydd—

(aa) o dan 21 oed; neu

(bb) yn ddibynyddion y gwladolyn neu'n ddibynyddion priod neu bartner sifil y gwladolyn; neu

(iii) perthnasau uniongyrchol dibynnol yn llinach esgynnol y gwladolyn neu yn llinach esgynnol priod neu bartner sifil y gwladolyn;

(e) o ran gwladolyn o'r Deyrnas Unedig, at ddibenion paragraff 9—

(i) priod neu bartner sifil y gwladolyn; neu

(ii) disgynyddion uniongyrchol y gwladolyn neu ddisgynyddion uniongyrchol priod neu bartner sifil y gwladolyn sydd—

(aa) o dan 21 oed; neu

(bb) yn ddibynyddion y gwladolyn neu'n ddibynyddion priod neu bartner sifil y gwladolyn;

ystyr "Ardal Economaidd Ewropeaidd" ("*European Economic Area*") yw'r ardal a ffurfir gan y Gwladwriaethau AEE;

ystyr "Cyfarwyddeb 2004/38" ("*2004/38 Directive*") yw Cyfarwyddeb 2004/38/EC Senedd

Ewrop a'r Cyngor ar hawl dinasyddion yr Undeb ac aelodau o'u teuluoedd i symud ac i fyw'n ddilyffethair yn nhiriogaeth yr Aelod-wladwriaethau;

ystyr "Cytundeb y Swistir" ("*Swiss Agreement*") yw'r Cytundeb rhwng y Gymuned Ewropeaidd a'i Haelod-wladwriaethau, o'r naill ran, a Chydffederasiwn y Swistir, o'r rhan arall, ar Symud Rhydd Personau a lofnodwyd yn Lwcsembwrg ar 21 Mehefin 1999[(1)] ac a ddaeth i rym ar 1 Mehefin 2002;

ystyr "ffoadur" ("*refugee*") yw person a gydnabuwyd gan lywodraeth Ei Mawrhydi fel ffoadur o fewn ystyr Confensiwn y Cenhedloedd Unedig sy'n ymwneud â Statws Ffoaduriaid a wnaed yng Ngenefa ar 28 Gorffennaf 1951 fel y'i hestynnwyd gan y Protocol iddo a ddaeth i rym ar 4 Hydref 1967;

ystyr "gweithiwr" yw "*worker*" o fewn ystyr Erthygl 7 o Gyfarwyddeb 2004/38 neu Gytundeb yr AEE, yn ôl fel y digwydd;

ystyr "gweithiwr ffin yr AEE" ("*EEA frontier worker*") yw gwladolyn o'r AEE—

(a) sy'n weithiwr yn y Deyrnas Unedig; a

(b) sy'n preswylio yn y Swistir neu yn nhiriogaeth Gwladwriaeth AEE ac eithrio'r Deyrnas Unedig ac sy'n dychwelyd i'w breswylfa yn y Swistir neu'r Wladwriaeth AEE honno, yn ôl fel y digwydd, yn ddyddiol neu o leiaf unwaith yr wythnos;

ystyr "gweithiwr mudol o'r AEE" ("*EEA migrant worker*") yw gwladolyn o'r AEE sy'n weithiwr, ac eithrio gweithiwr ffin yr AEE, yn y Deyrnas Unedig;

ystyr "gweithiwr Twrcaidd" ("*Turkish worker"*) yw gwladolyn Twrcaidd—

(a) sydd fel arfer yn preswylio yn y Deyrnas Unedig a'r Ynysoedd; a

(b) sydd, neu sydd wedi bod, mewn cyflogaeth gyfreithlon yn y Deyrnas Unedig;

ystyr "gwladolyn o'r AEE" ("*EEA national*") yw gwladolyn o Wladwriaeth yn yr AEE ac eithrio'r Deyrnas Unedig;

ystyr "gwladolyn o'r UE" ("*EU national*") yw un o wladolion un o Aelod-wladwriaethau'r Undeb Ewropeaidd;

---

(1) Cm. 4904 ac OJ Rhif L114, 30.04.02, t.6.

ystyr “Gwladwriaeth AEE” (“*EEA State*”) yw Aelod-wladwriaeth o’r Ardal Economaidd Ewropeaidd;

ystyr “hawl i breswylio’n barhaol” (“*right of permanent residence*”) yw hawl sy’n deillio o dan Gyfarwyddeb 2004/38 i breswylio yn y Deyrnas Unedig yn barhaol heb gyfyngiad;

ystyr “person cyflogedig” (“*employed person*”) yw person cyflogedig o fewn ystyr Atodiad 1 i Gytundeb y Swistir;

ystyr “person cyflogedig ffin y Swistir” (“*Swiss frontier employed person*”) yw gwladolyn Swisaidd sydd—

(a) yn berson cyflogedig yn y Deyrnas Unedig; a

(b) yn preswylio yn y Swistir neu yn nhiriogaeth Gwladwriaeth AEE ac eithrio’r Deyrnas Unedig ac sy’n dychwelyd i’w breswylfa yn y Swistir neu’r Wladwriaeth AEE honno, yn ôl fel y digwydd, yn ddyddiol neu o leiaf unwaith yr wythnos;

ystyr “person cyflogedig Swisaidd” (“*Swiss employed person*”) yw gwladolyn Swisaidd sy’n berson cyflogedig, ac eithrio person cyflogedig ffin y Swistir, yn y Deyrnas Unedig;

ystyr “person hunangyflogedig” (“*self-employed person*”) yw—

(a) o ran gwladolyn o’r AEE, person sy’n hunangyflogedig o fewn ystyr Erthygl 7 o Gyfarwyddeb 2004/38 neu Gytundeb yr AEE, yn ôl fel y digwydd; neu

(b) o ran gwladolyn Swisaidd, person sy’n berson hunangyflogedig o fewn ystyr Atodiad 1 i Gytundeb y Swistir;

ystyr “person hunangyflogedig ffin yr AEE” (“*EEA frontier self-employed person*”) yw gwladolyn o’r AEE sydd—

(a) yn berson hunangyflogedig yn y Deyrnas Unedig; a

(b) yn preswylio yn y Swistir neu yn nhiriogaeth Gwladwriaeth AEE ac eithrio’r Deyrnas Unedig ac sy’n dychwelyd i’w breswylfa yn y Swistir neu’r Wladwriaeth AEE honno, yn ôl fel y digwydd, yn ddyddiol neu o leiaf unwaith yr wythnos;

ystyr “person hunangyflogedig ffin y Swistir” (“*Swiss frontier self-employed person*”) yw gwladolyn Swisaidd sydd—

(a) yn berson hunangyflogedig yn y Deyrnas Unedig; a

(b) yn preswylio yn y Swistir neu yn nhiriogaeth Gwladwriaeth EEA ac eithrio'r Deyrnas Unedig ac sy'n dychwelyd i'w breswylfa yn y Swistir neu'r Wladwriaeth EEA honno, yn ôl fel y digwydd, yn ddyddiol neu o leiaf unwaith yr wythnos;

ystyr "person hunangyflogedig o'r AEE" ("*EEA self-employed person*") yw gwladolyn o'r AEE sy'n berson hunangyflogedig, ac eithrio person hunangyflogedig ffin yr AEE, yn y Deyrnas Unedig;

ystyr "person hunangyflogedig Swisaidd" ("*Swiss self-employed person*") yw gwladolyn Swisaidd sy'n berson hunangyflogedig, ac eithrio person hunangyflogedig ffin y Swistir, yn y Deyrnas Unedig;

ystyr "person sydd â chaniatâd i ddod i mewn neu i aros" ("*person with leave to enter or remain*") yw person ("A" yn y diffiniad hwn)—

(a) sydd–

(1) wedi gwneud cais am statws ffoadur, ond sydd o ganlyniad i'r cais hwnnw wedi'i hysbysu'n ysgrifenedig gan berson sy'n gweithredu o dan awdurdod Ysgrifennydd Gwladol yr Adran Gartref y tybir ei bod yn iawn caniatáu i A ddod i mewn i'r Deyrnas Unedig neu i aros ynddi ar sail diogelwch dyngarol neu ganiatâd yn ôl disgresiwn, er yr ystyrir nad yw A yn gymwys i gael ei gydnabod fel ffoadur; neu

(ii) heb wneud cais am statws ffoadur, ond sydd wedi'i hysbysu'n ysgrifenedig gan berson sy'n gweithredu o dan awdurdod Ysgrifennydd Gwladol yr Adran Gartref y tybir ei bod yn iawn caniatáu i A ddod i mewn i'r Deyrnas Unedig neu i aros ynddi ar sail caniatâd yn ôl disgresiwn;

(b) y rhoddwyd caniatâd iddo i ddod i mewn neu i aros yn unol â hynny;

(c) y mae cyfnod ei ganiatâd i ddod i mewn neu i aros heb ddod i ben neu wedi cael ei adnewyddu ac nad yw'r cyfnod y cafodd ei adnewyddu ar ei gyfer wedi dod i ben neu fod apêl yn yr arfaeth (o fewn ystyr adran 104 o Ddeddf Cenedligrwydd, Mewnfudo a

Lloches 2002) mewn perthynas â'i hawl i ddod i mewn neu i aros; ac

(d) sydd wedi bod yn preswylio fel arfer yn y Deyrnas Unedig a'r Ynysoedd drwy gydol y cyfnod er pan roddwyd caniatâd i A ddod i mewn neu i aros;

ystyr "yr Undeb Ewropeaidd" ("*European Union*") yw tiriogaeth Aelod-wladwriaethau'r Undeb Ewropeaidd fel y'i cyfansoddir o bryd i'w gilydd;

mae i "wedi setlo" yr ystyr a roddir i "*settled*" gan adran 33(2A) o Ddeddf Mewnfudo 1971[(1)];

ystyr "Ynysoedd" ("*Islands*") yw Ynysoedd y Sianel ac Ynys Manaw;

(2) At ddibenion yr Atodlen hon, mae "rhiant" ("*parent*") yn cynnwys gwarcheidwad, unrhyw berson arall sydd â chyfrifoldeb rhiant dros blentyn ac unrhyw berson sydd â gofal am blentyn ac mae "plentyn" ("*child*") i'w ddehongli yn unol â hynny.

(3) At ddibenion yr Atodlen hon, mae person ("A" yn yr is-baragraff hwn) i gael ei drin fel rhywun sy'n preswylio fel arfer yng Nghymru, y Deyrnas Unedig a'r Ynysoedd neu yn y diriogaeth sy'n ffurfio'r Ardal Economaidd Ewropeaidd, y Swistir a Thwrci pe byddai A wedi bod yn preswylio felly oni bai am y ffaith bod—

(a) A;

(b) priod neu bartner sifil A;

(c) rhiant A; neu

(d) yn achos perthynas uniongyrchol dibynnol yn y llinach esgynnol, plentyn A neu briod neu bartner sifil plentyn A,

yn gyflogedig dros dro neu wedi bod yn gyflogedig dros dro y tu allan i Gymru, y Deyrnas Unedig a'r Ynysoedd neu'r diriogaeth a ffurfir gan Ardal Economaidd Ewropeaidd, y Swistir a Thwrci.

(4) At ddibenion is-baragraff (3), mae cyflogaeth dros dro y tu allan i Gymru, y Deyrnas Unedig a'r Ynysoedd neu'r diriogaeth sy'n ffurfio'r Ardal Economaidd Ewropeaidd, y Swistir a Thwrci yn cynnwys—

(a) yn achos aelodau o luoedd rheolaidd y llynges, y fyddin neu'r llu awyr y Goron, unrhyw gyfnod pan fyddant yn gwasanaethu y tu allan i'r Deyrnas

---

(1) 1971 p. 77; mewnosodwyd adran 33(2A) ei mewnosod gan baragraff 7 o Atodlen 4 i Deddf Cenedligrwydd Prydeinig 1981 (p. 61).

Unedig fel aelodau o'r cyfryw luoedd; a

(b) yn achos aelodau o luoedd arfog rheolaidd Gwladwriaeth EEA neu'r Swistir, unrhyw gyfnod pan fyddant yn gwasanaethu y tu allan i'r diriogaeth sy'n ffurfio'r Ardal Economaidd Ewropeaidd a'r Swistir fel aelodau o'r cyfryw luoedd; a

(c) yn achos aelodau o luoedd arfog rheolaidd Twrci, unrhyw gyfnod pan fyddant yn gwasanaethu y tu allan i'r diriogaeth sydd yn ffurfio'r Ardal Economaidd Ewropeaidd, y Swistir a Thwrci fel aelodau o'r cyfryw luoedd.

(5) At ddibenion yr Atodlen hon mae ardal—

(a) nad oedd gynt yn rhan o'r Undeb Ewropeaidd neu'r Ardal Economaidd Ewropeaidd; ond

(b) sydd ar unrhyw adeg cyn neu ar ôl i'r Cynllun hwn ddod i rym wedi dod yn rhan o'r naill neu'r llall, neu o'r ddwy, o'r ardaloedd hyn,

i'w hystyried fel pe bai wastad wedi bod yn rhan o'r Ardal Economaidd Ewropeaidd.

## RHAN 2

### Categorïau

**Personau sydd wedi setlo yn y Deyrnas Unedig**

**2.**—(1) Person sydd ar ddiwrnod cyntaf blwyddyn academaidd gyntaf y cwrs—

(a) wedi setlo yn y Deyrnas Unedig heblaw am y rheswm ei fod wedi ennill yr hawl i breswylio'n barhaol;

(b) yn preswylio fel arfer yn y Deyrnas Unedig;

(c) wedi bod yn preswylio fel arfer yn y Deyrnas Unedig a'r Ynysoedd drwy gydol y cyfnod o dair blynedd cyn diwrnod cyntaf blwyddyn academaidd gyntaf y cwrs; ac

(d) yn ddarostyngedig i is-baragraff (2), na fu'n preswylio yn y Deyrnas Unedig a'r Ynysoedd yn ystod unrhyw ran o'r cyfnod y cyfeirir ato ym mharagraff (c) yn gyfan gwbl neu'n bennaf er mwyn derbyn addysg amser llawn.

(2) Nid yw paragraff (d) o is-baragraff (1) yn gymwys i berson yr ymdrinnir ag ef fel rhywun

sy'n preswylio fel arfer yn y Deyrnas Unedig a'r Ynysoedd yn unol â pharagraff 1(3).

**3.** Person—

(a) sydd wedi setlo yn y Deyrnas Unedig yn rhinwedd y ffaith ei fod wedi ennill yr hawl i breswylio'n barhaol;

(b) sy'n preswylio fel arfer yn y Deyrnas Unedig ar ddiwrnod cyntaf blwyddyn academaidd gyntaf y cwrs;

(c) sydd wedi bod yn preswylio fel arfer yn y Deyrnas Unedig a'r Ynysoedd drwy gydol y cyfnod o dair blynedd cyn diwrnod cyntaf blwyddyn academaidd gyntaf y cwrs; ac

(d) mewn achos lle'r oedd ei breswylio arferol y cyfeirir ato ym mharagraff (c) yn gyfan gwbl neu'n bennaf er mwyn derbyn addysg amser llawn, a oedd yn preswylio fel arfer yn y diriogaeth sy'n ffurfio'r Ardal Economaidd Ewropeaidd a'r Swistir yn union cyn y cyfnod preswylio arferol y cyfeirir ato ym mharagraff (c).

**Ffoaduriaid ac aelodau o'u teuluoedd**

**4.**—(1) Person—

(a) sy'n ffoadur;

(b) sy'n preswylio'n arferol yn y Deyrnas Unedig a'r Ynysoedd ac nad yw wedi peidio â phreswylio felly ers i'r person gael ei gydnabod yn ffoadur; ac

(c) sy'n preswylio'n arferol yn y Deyrnas Unedig ar ddiwrnod cyntaf blwyddyn academaidd gyntaf y cwrs.

(2) Person—

(a) sy'n briod neu'n bartner sifil i'r ffoadur;

(b) oedd yn briod neu'n bartner sifil i'r ffoadur ar y dyddiad y gwnaeth y ffoadur y cais am loches;

(c) sy'n preswylio'n arferol yn y Deyrnas Unedig a'r Ynysoedd ac nad yw wedi peidio â bod yn preswylio felly er pan gafodd ganiatâd i aros yn y Deyrnas Unedig; ac

(d) sy'n preswylio'n arferol yn y Deyrnas Unedig ar ddiwrnod cyntaf blwyddyn academaidd gyntaf y cwrs.

(3) Person—

(a) sy'n blentyn i ffoadur neu'n blentyn i briod neu i bartner sifil ffoadur;

(b) ar y dyddiad y gwnaeth y ffoadur y cais am loches, oedd yn blentyn i'r ffoadur neu'n blentyn i berson a oedd yn briod neu'n bartner sifil i'r ffoadur ar y dyddiad hwnnw;

(c) oedd o dan 18 oed ar y dyddiad y gwnaeth y ffoadur y cais am loches;

(d) sy'n preswylio'n arferol yn y Deyrnas Unedig a'r Ynysoedd ac nad yw wedi peidio â phreswylio felly er pan gafodd ganiatâd i aros yn y Deyrnas Unedig; a

(e) sy'n preswylio'n arferol yn y Deyrnas Unedig ar ddiwrnod cyntaf blwyddyn academaidd gyntaf y cwrs.

**Personau sydd â chaniatâd i ddod i mewn neu i aros ac aelodau o'u teuluoedd**

**5.**—(1) Person—

(a) sydd â chaniatâd i ddod i mewn neu i aros;

(b) sy'n preswylio'n arferol yn y Deyrnas Unedig ar ddiwrnod cyntaf blwyddyn academaidd gyntaf y cwrs; a

(c) sydd wedi bod yn preswylio'n arferol yn y Deyrnas Unedig a'r Ynysoedd drwy gydol y cyfnod o dair blynedd cyn diwrnod cyntaf blwyddyn academaidd gyntaf y cwrs.

(2) Person—

(a) sy'n briod neu'n bartner sifil i berson â chaniatâd i ddod i mewn neu i aros;

(b) a oedd yn briod neu'n bartner sifil i'r person â chaniatâd i ddod i mewn neu i aros ar y dyddiad y gwnaeth y person hwnnw—

(i) y cais am loches;

(ii) y cais am ganiatâd yn ôl disgresiwn, lle na wnaed cais am loches;

(c) sy'n preswylio'n arferol yn y Deyrnas Unedig ar ddiwrnod cyntaf blwyddyn academaidd gyntaf y cwrs; ac

(d) sydd wedi bod yn preswylio'n arferol yn y Deyrnas Unedig a'r Ynysoedd drwy gydol y cyfnod o dair blynedd cyn diwrnod cyntaf blwyddyn academaidd gyntaf y cwrs.

(3) Person—

(a) sy’n blentyn i berson â chaniatâd i ddod i mewn neu i aros neu sy’n blentyn i briod neu i bartner sifil person â chaniatâd i ddod i mewn neu i aros;

(b) a oedd, ar y dyddiad y gwnaeth y person â chaniatâd i ddod i mewn neu i aros—

(i) y cais am loches; neu

(ii) y cais am ganiatâd yn ôl disgresiwn, lle na wnaed cais am loches;

yn blentyn i’r person hwnnw neu’n blentyn i berson oedd yn briod neu’n bartner sifil i’r person â chaniatâd i ddod i mewn neu i aros ar y dyddiad hwnnw;

(c) a oedd o dan 18 oed ar y dyddiad y gwnaeth y person â chaniatâd i ddod i mewn neu i aros—

(i) y cais am loches; neu

(ii) y cais am ganiatâd yn ôl disgresiwn, lle na wnaed cais am loches;

(d) sy’n preswylio’n arferol yn y Deyrnas Unedig ar ddiwrnod cyntaf blwyddyn academaidd gyntaf y cwrs; a

(e) sydd wedi bod yn preswylio’n arferol yn y Deyrnas Unedig a’r Ynysoedd drwy gydol y cyfnod o dair blynedd cyn diwrnod cyntaf blwyddyn academaidd gyntaf y cwrs.

**Gweithwyr, personau cyflogedig, personau hunangyflogedig ac aelodau o’u teuluoedd**

**6.**—(1) Person—

(a) sydd—

(i) yn weithiwr mudol o’r AEE neu yn berson hunangyflogedig o’r AEE;

(ii) yn berson cyflogedig Swisaidd neu’n berson hunangyflogedig Swisaidd;

(iii) yn aelod o deulu person a grybwyllir ym mharagraff (i) neu (ii);

(iv) yn weithiwr ffin yr AEE neu yn berson hunangyflogedig ffin yr AEE;

(v) yn berson cyflogedig ffin y Swistir neu’n berson hunangyflogedig ffin y Swistir; neu

(vi) yn aelod o deulu person a grybwyllir ym mharagraff (iv) neu (v);

(b) yn ddarostyngedig i is-baragraff (2), sy’n preswylio fel arfer yn y Deyrnas Unedig ar ddiwrnod cyntaf blwyddyn academaidd gyntaf y cwrs; ac

(c) sydd wedi bod yn preswylio fel arfer yn y diriogaeth sy’n ffurfio’r Ardal Economaidd Ewropeaidd a’r Swistir drwy gydol y cyfnod o dair blynedd cyn diwrnod cyntaf blwyddyn academaidd gyntaf y cwrs.

(2) Nid yw paragraff (b) o is-baragraff (1) yn gymwys os yw’r person sy’n gwneud cais am gymorth o dan y Cynllun hwn yn dod o fewn paragraff (a)(iv), (v) neu (vi) o is-baragraff (1).

**7.** Person sydd—

(a) yn preswylio fel arfer yn y Deyrnas Unedig ar ddiwrnod cyntaf blwyddyn academaidd gyntaf y cwrs;

(b) wedi bod yn preswylio fel arfer yn y diriogaeth sy’n ffurfio’r Ardal Economaidd Ewropeaidd a’r Swistir drwy gydol y cyfnod o dair blynedd cyn diwrnod cyntaf blwyddyn academaidd gyntaf y cwrs; ac

(c) â hawlogaeth i gael cymorth yn rhinwedd Erthygl 12 o Reoliad y Cyngor (EEC) Rhif 1612/68 ar ryddid gweithwyr i symud(**1**), fel y’i hestynnwyd gan Gytundeb yr AEE.

**Personau sydd wedi setlo yn y Deyrnas Unedig ac sydd wedi arfer hawl i breswylio yn rhywle arall**

**8.**—(1) Person—

(a) sydd wedi setlo yn y Deyrnas Unedig;

(b) a oedd yn preswylio fel arfer yn y Deyrnas Unedig ac wedi setlo yn y Deyrnas Unedig yn union cyn gadael y Deyrnas Unedig ac sydd wedi arfer hawl i breswylio;

(c) sy’n preswylio fel arfer yn y Deyrnas Unedig ar y diwrnod y mae tymor cyntaf y flwyddyn academaidd gyntaf mewn gwirionedd yn dechrau;

(d) sydd wedi bod yn preswylio fel arfer yn y diriogaeth sy’n ffurfio’r Ardal Economaidd Ewropeaidd a’r Swistir drwy gydol y cyfnod o dair blynedd cyn

---

(**1**) OJ Rhif L257, 19.10.1968, t. 2 (OJ/SE 1968 (II) t. 475).

diwrnod cyntaf blwyddyn academaidd gyntaf y cwrs; a

(e) mewn achos lle'r oedd ei breswylio arferol y cyfeirir ato ym mharagraff (d) yn gyfan gwbl neu'n bennaf er mwyn derbyn addysg amser llawn, a oedd yn preswylio fel arfer yn y diriogaeth sy'n ffurfio'r Ardal Economaidd Ewropeaidd a'r Swistir yn union cyn y cyfnod preswylio arferol y cyfeirir ato ym mharagraff (d).

(2) At ddibenion y paragraff hwn, mae person wedi arfer hawl i breswylio os yw'n wladolyn o'r Deyrnas Unedig, yn aelod o deulu gwladolyn o'r Deyrnas Unedig at ddibenion Erthygl 7 o Gyfarwyddeb 2004/38 (neu ddibenion cyfatebol o dan Gytundeb yr AEE neu Gytundeb y Swistir) neu'n berson sydd â hawl i breswylio'n barhaol sydd yn y ddau achos wedi arfer hawl o dan Erthygl 7 o Gyfarwyddeb 2004/38 neu unrhyw hawl gyfatebol o dan Gytundeb yr AEE neu Gytundeb y Swistir mewn gwladwriaeth heblaw'r Deyrnas Unedig neu, yn achos person sydd wedi setlo yn y Deyrnas Unedig ac sydd â hawl i breswylio'n barhaol, os yw'n mynd i'r wladwriaeth o fewn y diriogaeth sy'n ffurfio'r Ardal Economaidd Ewropeaidd a'r Swistir y mae'n wladolyn iddi neu y mae'r person y mae'n aelod o deulu gwladolyn iddi mewn perthynas ag ef yn wladolyn iddi.

**Gwladolion o'r UE**

**9.**—(1) Person—

(a) -sydd naill ai—

(i) yn wladolyn o'r UE ar ddiwrnod cyntaf blwyddyn academaidd gyntaf y cwrs, ac eithrio person sydd yn wladolyn o'r Deyrnas Unedig nad yw wedi arfer hawl i breswylio; neu

(ii) yn aelod o deulu person o'r fath;

(b) wedi bod yn preswylio fel arfer yn y diriogaeth sy'n ffurfio'r Ardal Economaidd Ewropeaidd a'r Swistir drwy gydol y cyfnod o dair blynedd cyn diwrnod cyntaf blwyddyn academaidd gyntaf y cwrs; ac

(c) yn ddarostyngedig i is-baragraff (2), na fu'n preswylio fel arfer yn y diriogaeth sy'n ffurfio'r Ardal Economaidd Ewropeaidd a'r Swistir yn ystod unrhyw ran o'r cyfnod y cyfeirir ato ym

mharagraff (c) yn gyfan gwbl neu'n bennaf er mwyn derbyn addysg amser llawn.

(2) Nid yw paragraff (ch) o is-baragraff (1) yn gymwys i berson yr ymdrinnir ag ef fel rhywun sy'n preswylio fel arfer yn y diriogaeth sy'n ffurfio'r Ardal Economaidd Ewropeaidd a'r Swistir yn unol â pharagraff 1(3).

(3) Os yw gwladwriaeth yn ymaelodi â'r Undeb Ewropeaidd ar ôl diwrnod cyntaf blwyddyn academaidd gyntaf y cwrs a bod person yn wladolyn o'r wladwriaeth honno neu'n aelod o deulu gwladolyn o'r wladwriaeth honno, trinnir y gofyniad ym mharagraff (a) o is-baragraff (1) bod rhywun yn wladolyn o'r UE ar ddiwrnod cyntaf blwyddyn academaidd gyntaf y cwrs fel gofyniad sydd wedi'i fodloni.

**10.**—(1) Person—

(a) sy'n wladolyn o'r UE ac eithrio gwladolyn o'r Deyrnas Unedig ar ddiwrnod cyntaf blwyddyn academaidd gyntaf y cwrs;

(b) sy'n preswylio fel arfer yn y Deyrnas Unedig ar ddiwrnod cyntaf blwyddyn academaidd gyntaf y cwrs;

(c) sydd wedi bod yn preswylio fel arfer yn y Deyrnas Unedig a'r Ynysoedd drwy gydol y cyfnod o dair blynedd yn union cyn diwrnod cyntaf blwyddyn academaidd gyntaf y cwrs; ac

(d) mewn achos lle'r oedd ei breswylio arferol y cyfeirir ato ym mharagraff (c) yn gyfan gwbl neu'n bennaf er mwyn derbyn addysg amser llawn, a oedd yn preswylio fel arfer yn y diriogaeth sy'n ffurfio'r Ardal Economaidd Ewropeaidd a'r Swistir yn union cyn y cyfnod preswylio arferol y cyfeirir ato ym mharagraff (c).

(2) Os yw gwladwriaeth yn ymaelodi â'r Undeb Ewropeaidd ar ôl diwrnod cyntaf blwyddyn academaidd gyntaf y cwrs a bod person yn wladolyn o'r wladwriaeth honno, trinnir y gofyniad ym mharagraff (a) o is-baragraff (1) bod rhywun yn wladolyn o'r UE heblaw gwladolyn o'r Deyrnas Unedig ar ddiwrnod cyntaf blwyddyn academaidd gyntaf y cwrs fel gofyniad sydd wedi'i fodloni.

**Plant gwladolion Swisaidd**

**11.** Person—

(a) sy’n blentyn i wladolyn Swisaidd y mae ganddo hawl i gael cymorth yn y Deyrnas Unedig yn rhinwedd Erthygl 3(6) o Atodiad 1 i Gytundeb y Swistir;

(b) sy’n preswylio fel arfer yn y Deyrnas Unedig ar ddiwrnod cyntaf blwyddyn academaidd gyntaf y cwrs;

(c) sydd wedi bod yn preswylio fel arfer yn y diriogaeth sy’n ffurfio’r Ardal Economaidd Ewropeaidd a’r Swistir drwy gydol y cyfnod o dair blynedd cyn diwrnod cyntaf blwyddyn academaidd gyntaf y cwrs; ac

(d) mewn achos lle’r oedd ei breswylio arferol y cyfeirir ato ym mharagraff (c) yn gyfan gwbl neu’n bennaf er mwyn derbyn addysg amser llawn, a oedd yn preswylio fel arfer yn y diriogaeth sy’n ffurfio’r Ardal Economaidd Ewropeaidd a’r Swistir yn union cyn y cyfnod preswylio arferol y cyfeirir ato ym mharagraff (c).

**Plant gweithwyr Twrcaidd**

**12.** Person—

(a) sydd yn blentyn i weithiwr Twrcaidd;

(b) sydd fel arfer yn preswylio yn y Deyrnas Unedig ar ddiwrnod cyntaf blwyddyn academaidd gyntaf y cwrs; ac

(c) sydd wedi preswylio fel arfer yn y diriogaeth sydd yn ffurfio’r Ardal Economaidd Ewropeaidd, y Swistir a Thwrci drwy’r cyfnod o dair blynedd yn union o flaen diwrnod cyntaf blwyddyn academaidd gyntaf y cwrs.